

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 30ain o Fai 2022 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Alan H. Jones, Richard Evans, Geraint Evans

CYFARFOD BLYNYDDOL

1. Ymddiheuriadau: Ni dderbyniwyd yr un ymddiheuriad

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Bethan Lawton ar ei buddugoliaeth yn etholiad Cyngor Sir Gwynedd a dymunwyd yn dda iddi.

2. Datgan diddordeb: Eitem 26 – Cynghorydd Richard Evans – yn berchen ar yr eiddo

3. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd gan Gynghorwyr:

Derbyniwyd y ffurflenni gan y cynghorwyr.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

4. Ethol Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2022/2023:

PENDERFYNIAD: Etholwyd y Cynghorydd Bethan Lawton yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2022/2023.

5. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd y Cadeirydd:

PENDERFYNIAD: I'w dderbyn ar ddiwedd y cyfarfod.

6. Ethol Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2022/2023:

PENDERFYNIAD: Etholwyd y Cynghorydd Alan H. Jones yn Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2022/2023.

7. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd Is-Gadeirydd:

PENDERFYNIAD: I dderbyn ar ddiwedd y cyfarfod.

8. Derbyn cylch gorchwyl Elusen R.J.Roberts:

PENDERFYNIAD: I fabwysiadu'r cylch gorchwyl.

9. Enwebu Cynghorwyr i eistedd ar bwyllgor Elusen R.J.Roberts (Dolgoch):

PENDERFYNIAD: Y Cynghorwyr: Bethan Lawton, Alan H Jones, Richard Evans, Arwel Pierce a Geraint Evans.

10. I gadarnhau rhestr o gyfarfodydd y Cyngor am y flwyddyn 2022/2023:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y rhestr o gyfarfodydd am y flwyddyn 2022/2023.

11. I dderbyn adroddiad blynyddol y cyngor am y flwyddyn 2021/2022:

Adroddodd y Clerc nad oedd yr adroddiad blynyddol yn barod a bod angen lluniau o gynghorwyr.

PENDERFYNIAD: I dynnu lluniau o gynghorwyr ar ddiwedd y cyfarfod.

12. Enwebu a phenodi Cynghorwyr i gyrff allanol:

PENDERFYNIAD: I enwebu'r canlynol:

13. Mabwysiadu Rheolau Sefydlog:

PENDERFYNIAD: I fabwysiadu'r rheolau sefydlog.

14. Mabwysiadu Rheoliadau Ariannol:

PENDERFYNIAD: I fabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol.

15. Mabwysiadu Cod Ymddygiad i Gynghorwyr:

Nodwyd y dylid darparu hyfforddiant i gynghorwyr ar y cod ymddygiad.

PENDERFYNIAD: I fabwysiadu Cod Ymddygiad i Gynghorwyr.

16. Derbyn Cofrestr Buddiannau Aelodau:

Derbyniwyd cofrestr buddiannau cynghorwyr yn y cyfarfod.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

17. Adolygu'r Gofrestr Asesiad Risg y Cyngor:

Nodwyd y dylid creu dogfen cofrestr asesiad risg ar gyfer elusen Dolgoch.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y gofrestr asesiad risg.

18. Penodi Archwilydd Mewnol ar gyfer 2022/2023:

PENDERFYNIAD: I benodi Cyngor Gwynedd yn archwilydd mewnol y Cyngor.

CYFARFOD ARFEROL

19. Derbyn cofnodion 21 Mawrth 2022:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

20. Cyfrifon i'w talu:

Adroddwyd bod sic wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd o gyfrif banc clwb ieuentid Brynchrug a dylid gwario'r arian ar ieuentid Brynchrug yn unig.

B Gwilym	Cyflog	101791	£383.52
Cyllid a Thollau EM	YG	101792	£95.80
Cyngor Gwynedd	Ysbwriel	101793	£111.00
Jones & Jones	Amrywiol	101794	£1,376.40

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau uchod.

21. Trafod cynnal cyfarfodydd hybrid:

PENDERFYNIAD: Treialu defnyddio offer personol cynghorwyr cyn prynu offer.

22. Gosod rhybudd o gyfetholiad:

PENDERFYNIAD: I osod hysbysiad ar dudalen Facebook Brynchrug, ar hysbysfwrdd y pentref ac yn Dail Dysynni.

23. Henaduriaeth Gorllewin Cymru - Bedd Mari Jones ym mynwent Brynchrug:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.
I ymateb gan ddiolch iddynt am eu hymateb, gan egluro y bydd y cyngor yn hysbysu trigolion y dylid anfon unrhyw gwynion am y fynwent at eu sylw o hyn allan.

24. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cyn-Eglwys Sant Fathew:

PENDERFYNIAD: I ymateb i APCE gan egluro bod rhywun yn byw yno, cred yn lleol yw mai'r perchennog a'i fam a gŵr arall sydd yn byw ar y safle, ac efallai nad oes cyfleusterau fel toiled ac ystafell ymolchi, gan ofyn i'r awdurdod ymchwilio mewn i'r mater.

25. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Dolau Gwyn, Brynchrug, LL36 9UL NP5/55/126E):

PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad.

26. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Fferm Cynfal, Brynchrug, LL36 9RB (NP5/55/11K):

Bu i'r Cynghorydd Richard Evans ddatgan buddiant sydd yn rhagfarnu a gadael y cyfarfod.

PENDERFYNIAD: Dim sylw.

Dychwelodd y Cynghorydd Richard Evans i'r cyfarfod.

27. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

- y Pafiliwn yn ddreulld
- y pyst wedi eu hadnewyddu
- y ffrâm ddringo angen sylw
- nytiau yn rhydd o dan sedd siglen ond wedi ei hatgyweirio

Nodwyd bod risg o bêl o'r cae pêl-droed yn taro plentyn yn y darn o'r cael ble mae offer chwarae.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.
I roi eitem ar agenda mis nesaf, sef i adolygu'r ffi am ddefnydd o'r Pafiliwn.
I ofyn i'r Clwb Pêl-droed am restr o'r gemau ac i dalu'r anfoneb am y gemau erbyn y cyfarfod nesaf.
Gofyn i Glwb Pêl-droed Tywyn a Brynchrug am wahoddiad i'w Cyfarfod Blynyddol.
Y Cyng Bethan Lawton ofyn am ddyfynbris i gael flail i'r cae chwarae.
I gael dyfynbris ar gyfer cynnal arolwg o goed Pinwydd o'r Alban sydd yn y cae chwarae.
I roi eitem ar agenda mis nesaf, sef glanhau'r Pafiliwn.
Angen atgyweirio'r ffrâm ddringo, y prenia yn rhydd.

28. Cae Chwarae - trafod agor y toiledau i'r cyhoedd:

PENDERFYNIAD: I adael y mater ar y bwrdd, gan fonitro'r sylwadau ac unrhyw gwynion y derbynnir dros yr haf.

29. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:

- wedi ail-sefydlu cyfarfodydd gyda'r Bwrdd Iechyd
- batwn gemau'r Gymanwlad ym Mrynchrug rhwng 9.00-9.30 ar 30 Mehefin
- damwain car wedi bod yn y pentref y diwrnod blaenorol, adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd am fesur cyflymder modurwyr
- O Mai 2023 ymlaen bydd cyflymder ffyrdd mewn pentrefi yn 20mya
- nid oes llinell wen ar ffordd, y mater yn derbyn sylw Cyngor Gwynedd
- cais gan aelod o'r cyhoedd wedi ei dderbyn i beidio torri gwair yn Nolithel
- Cyngor Gwynedd yn rhoi tendrau allan yr wythnos ganlynol am gynnal gwaith lladd chwyn
- ffens wedi ei falu yng nghae chwarae Maes Hyfryd, yr arwydd dim chwarae gemau pêl yn cael ei anwybyddu

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

30. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Trafodwyd trwydded 24 awr Tafarn y Peniarth

PENDERFYNIAD:

I estyn gwahoddiad i swyddogion cymunedol yr Heddlu i fynychu cyfarfod o'r cyngor. Anfon llythyr at uned trwyddedu Cyngor Gwynedd yn egluro nad oedd problemau yn y pentref yn ystod cyfnod clo Covid19. Wedi i dafarn y Peniarth ail-agor ail ddechreuodd y problemau o sŵn yn y pentref. Gofyn i'r uned drwyddedu a ydynt yn fodlon adolygu'r drwydded 24 awr, yn sgil sŵn yn oriau man y bore, gydag unigolion yn cyrraedd pentref Bryncrug o Dywyn wedi i dafarndai Tywyn gau am y nos. Nodwyd hefyd bod gorfeddwi yn digwydd yn y dafarn.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:44pm

Llofnod y Cadeirydd